# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## CYMRAEG

## 2013

© WJEC CBAC Cyf.

## RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2013 TGAU CYMRAEG.  Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.  Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

© WJEC CBAC Cyf.

## HAEN SYLFAENOL

### ADRAN A

**1.** (i) Un marc am nodi:

- Medi 14eg

[1]

(ii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi unrhyw ddau o'r canlynol:

- Geraint Thomas
- Tom James
- Jade Jones

[2]

(iii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- 11 gêm
- Stadiwm y Mileniwm

[2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

**2.** 1 marc am bob ffaith hyd at **18 marc**
Disgwylir ffeithiau o'r darnau yn unig, a disgwylir rhai ffeithiau o'r **tair adran** yn y cwestiwn, ond ni nodir marciau penodol i bob adran.
Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau y medrir eu clustnodi i fwy nag un adran.
Os atebir ar un adran yn unig – cyfanswm o 16 marc yn unig.
Os atebir ar ddwy adran yn unig – cyfanswm o 17 marc yn unig.

| | **Darn darllen 1:**<br>**Croesawu athletwyr yn ôl i Gymru** | **Darn darllen 2:**<br>**Gemau Olympaidd yr Haf 2012** |
|---|---|---|
| **ffeithiau am y Gemau**<br><br>**1marc**<br>**✓ ff** | • Gemau Olympaidd 2012 yn Llundain<br>• Digwyddiad/dathliad yn cael ei gynnal i groesawu athletwyr Cymru yn ôl (Medi 14eg, ym Mae Caerdydd)<br>• Y Cymry'n ennill 7 medal<br>• Enwau enillwyr y medalau / eu campau (o  leiaf 2)<br>• 11/ llawer/ nifer o gemau pêl-droed yn cael eu cynnal yn Stadiwm y Mileniwm<br>• Cymru efo cysylltiadau cryf â thîm seiclo Prydain | • Digwyddiad aml-chwaraeon rhyngwladol pwysig<br>• Cynhaliwyd yn Llundain, (Lloegr)<br>• Beirniadaeth am y gost/ croesawu oherwydd ailddatblygu<br>• 27 Gorffennaf hyd 12 Awst 2012<br>• Roedd 10,820 o athletwyr yn cymryd rhan/ dros 10,000<br>• 204 o wledydd yn cymryd rhan / dros 200<br>• Llundain oedd y ddinas gyntaf i gynnal y Gemau Olympaidd modern deirgwaith, (wedi iddynt gynnal Gemau Olympaidd yr Haf 1908 ac 1948)<br>• Arwyddair – *Inspire a Generation* / Ysbrydola Genhedlaeth<br>• 302/ dros 300 o gystadlaethau/mewn 26 o Chwaraeon Olympaidd)<br>• Canolbwynt y gemau oedd Parc Olympaidd yn (Stratford, Llundain)/ 200 hectar<br>• Seremoni agoriadol – Gorffennaf 27<br>• Seremoni gloi – Awst 12<br>• Stadiwm Olympaidd Llundain<br>• Defnyddiwyd lleoliadau oedd eisoes yn bodoli hefyd ar gyfer y gemau/ cyn safle diwydiannol.<br>• Sylw am nifer y cystadleuwyr o'r map |
| **y cais a'r paratoi**<br><br>**1 marc**<br>**✓c** | • Cyfraniad Cymru – cynnal gwersylloedd ymarfer i nifer o wledydd cyn y Gemau<br>• tîm seiclo wedi bod yn ymarfer (yn y felodrôm yng Nghasnewydd) | • 9 dinas wedi gwneud cais yn wreiddiol<br>• Dyddiad cau ar gyfer y cais oedd 15 Gorffennaf 2003<br>• Ar 6 Mehefin 2005, cafwyd adroddiadau/ cafwyd adroddiadau (gwerthuso)PORh.<br>• Yn yr adroddiad, Paris oedd â'r adroddiad gorau/ gyda Llundain yn ail agos/ Efrog Newydd a Madrid yn cael adroddiadau positif iawn hefyd.<br>• Gwybodaeth am y ceisiadau o'r tabl – hyd at 2 ffaith gywir am y rowndiau neu'r gwledydd - marc yr un<br>• Cyfarfod yn Singapore/ 6 Gorffennaf 2005 - cytunwyd ar Lundain fel lleoliad.<br>• Rhestr fer o 5 dinas (Llundain, Moscow, Madrid, Paris, Efrog Newydd)<br>• Sebastian Coe a Ken Livingstone oedd yn arwain y cais ar ran Llundain |



© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| **llwyddiannau 1marc ✓ ll** | • Y Cymry wedi gwneud cyfraniad i (gyfanswm) fedalau Prydain (meddai Carwyn Jones)<br>• Balch o'r hyn mae athletwyr Cymru wedi ei gyflawni (meddai CJ)<br>• Cymru wedi chwarae rôl flaenllaw (yn y wledd o chwaraeon ...) (meddai Rosemary Butler, Llywydd y Cynulliad)<br>• athletwyr wedi rhoi Cymru ar y map/ perfformiadau dewr/ pob un yn arwyr (meddai RB)<br>• Carwyn Jones ( Prif Weinidog Cymru) yn dweud fod athletwyr Cymru wedi bod yn ysbrydoliaeth<br>• Llygaid y byd wedi bod ar Brydain | • Unol Daleithiau enillodd y nifer fwyaf o fedalau/ China'n ail/ Prydain yn 3ydd<br>• Prydain yn gallu cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr/ eisoes wedi bod yn llwyddiannus – Pencampwriaeth pêl-droed Ewro 1996 + Gemau'r Gymanwlad 2002<br>• Croeso gan rai oherwydd yr ailddatblygu fuasai'n digwydd yn nwyrain Llundain (yn enwedig ar sail cynaliadwyedd)<br>• Llwyddiant y ceisiadau |

Ymwybyddiaeth o ffurf **deialog**: 2 farc
(Deialog: sgwrs / trafodaeth rhwng 2 berson - naill ai wedi ei gosod ar ffurf sgript ag enwau ar yr ochr, neu sgwrs rhwng dau berson lle nad oes enwau ar yr ochr, ond lle mae'n amlwg y cyflwynir yr hyn mae dau berson yn ei ddweud.)

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2: 20**



© WJEC CBAC Cyf.

**3.** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol – hyd at **12**.
Enwi nodwedd (½ marc) + enghreifftio neu ddyfynnu (neu gyfeirio'n benodol at y nodwedd yn y darn darllen os nad oes modd dyfynnu) (½ marc) + rhesymu neu drafod effeithiolrwydd (1 marc).

| **Darn Darllen 1 –<br>Croesawu athletwyr yn ôl i Gymru** | **Darn Darllen 2 –<br>Gemau Olympaidd yr Haf 2012** |
|---|---|
| **(3 x 2 = 6)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno eitem newyddion – dyfynnu yr hyn a ddywedir<br>• rhoi gwybodaeth am yr achlysur<br>• dathlu llwyddiant y Cymry | **(3 x 2 = 6)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth am y Gemau |
| **pwy yw'r darllenwyr**<br>• unrhyw un sydd â diddordeb yn y Gemau Olympaidd<br>• darllenwyr newyddion<br>• darllenwyr safle gwe newyddion BBC | **pwy yw'r darllenwyr**<br>• unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth am y Gemau Olympaidd<br>• darllenwyr safle gwe Wicipedia |
| **y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• iaith lafar safonol yn y dyfyniadau | **y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• uniongyrchol, moel |
| **nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** adroddiad/erthygl newyddion safle gwe BBC Cymru<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. llwyddodd, dywedodd, ychwanegodd<br>• **berfau presennol** yn y dyfyniadau e.e. mae eu talent..., mae gennym...<br>• **berfau amhersonol** e.e. trefnwyd<br>• **dyfynnu** geiriau Carwyn Jones (ddwywaith) + Rosemary Butler<br>• **perswadiol:** Mae Cymru wedi chwarae rôl flaenllaw..., pob un...yn arwyr...<br>• **blwyddyn**: 2012<br>• **enwi llefydd** e.e. Cymru, Casnewydd, DU, Stadiwm y Mileniwm<br>• **teitlau** e.e. Prif Weinidog Cymru, Llywydd y Cynulliad, Gemau Olympaidd a Pharalympaidd<br>• **enwau pobl** e.e. enwau enillwyr y 7 medal; Rosemary Butler, Carwyn Jones<br>• **niferoedd** e.e. 11 o gemau pêl-droed, saith medal + dyddiadau<br>• **rhestru** e.e. enwau'r Cymry a enillodd y medalau<br>• **ansoddeiriau** e.e. cryf, llwyddiannus, blaenllaw, dewr<br>• **trosiad** e.e. gwledd o chwaraeon a diwylliant<br>• **gor-ddweud** e.e. croesawu'r byd i Stadiwm y Mileniwm | **nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** tudalen wybodaeth safle Wicipedia (nodweddion tudalen wybodaeth Wicipedia e.e. lliw, tanlinellu)<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. daeth, enillodd, dywedodd<br>• **berfau amhersonol** e.e. penderfynwyd, cafwyd, croesawyd<br>• **blynyddoedd / dyddiadau** e.e. 2012, 2005, 2003, 1996, 15 Gorffennaf, dyddiadau'r Gemau<br>• **enwi llefydd** (llawer ohonynt) e.e. Llundain, Lloegr, Singapore, y naw dinas, y gwledydd wnaeth gais am y Gemau ...<br>• **teitlau** e.e. Gemau Olympaidd, Pencampwriaeth Ewro, Gemau'r Gymanwlad<br>• **enwau pobl** e.e. Sebastian Coe a Ken Livingstone<br>• **niferoedd/ystadegau** e.e. 10, 820 o athletwyr, 204 o wledydd, nifer cystadleuwyr, dyddiadau, cystadlaethau<br>• **rhestru** e.e. y pum dinas, y rhestr yn y tabl canlyniadau, dyddiadau<br>• **ansoddeiriau** (yn brin) e.e. ail agos, positif iawn, |



© WJEC CBAC Cyf.

| **y cyflwyniad** | **y cyflwyniad** |
|---|---|
| • **print bras** - teitl - NEWYDDION (ar frig y dudalen)<br>• **baner Cymru** – (2 ar frig y dudalen)<br>• **teitl** yr adroddiad newyddion – Croesawu athletwyr yn ôl i Gymru (print gwyn ar gefndir coch)<br>• **isbenawdau** (mewn print trwm) – mewn lliw gwyrdd – Saith medal, Ysbrydoliaeth, Ar y map<br>• un **golofn a pharagraffau byrion**<br>• **print trwm** – pennawd<br>• **blwch** lliw coch ar frig y dudalen (+ blychau'r lluniau a'r ddwy faner)<br>• **lluniau lliw** : y 7 athletwr, dau lun o faner Cymru ar y brig | • **logo** Wicipedia ar frig y dudalen<br>• **logo** Gemau'r Olympiad<br>• **baneri**'r 5 gwlad yn y tabl ceisiadau<br>• **teitl** y dudalen wybodaeth (Gemau Olympaidd yr Haf 2012) (mewn blwch glas)<br>• **is benawdau** (print trwm du - yn y blychau - Gwneud Cais, Cost)<br>• prif ffeithiau wedi eu **tanlinellu** + mewn **print glas** (nodwedd Wicipedia) yn cynnig dolen neu gyswllt i fwy o wybodaeth<br>• **map** o'r gwledydd efo maint y timau<br>• **print trwm** – y teitl + is-deitl – gwneud cais, canlyniadau ceisiadau, rhestr o wybodaeth yn y blwch, canlyniadau gorau yn y tabl ceisiadau<br>• **blychau**: un yn rhoi ffeithiau am Gemau'r Olympiad; un yn rhoi canlyniadau'r ceisiadau ar ffurf grid/ tabl; un yn rhoi map + blychau bach yn dangos nifer y cystadleuwyr. |

Dyfernir **3 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau/ ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).
**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd)**
**3 marc**– mynegi barn a chyd-drafod yn dda
**2 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn eithaf da
**1 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn fras

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 15 marc**

- **½ marc am enwi nodwedd. Rhaid dyfynnu neu enghreifftio'n glir er mwyn ennill y marc enwi nodwedd.**
- **O fewn 1 ½ marc (½ marc am ddyfynnu/ enghreifftio ac yna hyd at 1 marc am drafod effeithiolrwydd neu bwrpas).**
- **Wrth sôn am fwriad yr awdur/ pwy yw'r darllenwyr, mae'n anodd enghreifftio felly rhoddir hyd at 1 ½ marc am esbonio'r pwrpas.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol.**

| **IAITH A MYNEGIANT**<br>**10** | **Marc**<br>**10** |
|---|---|
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 9-10 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 7-8 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 6 |
| • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf | 4-5 |
| • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf | 2-3 |
| • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 + iaith a Mynegiant: 10)**



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**4.** Gweler y disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys ac Iaith a Mynegiant.
Ffurf cwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys
½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol***

| **Cyfanswm marciau 40** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL / PERSWADIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • trafod y testun gyda pheth manylder gan fynegi barn yn gyson<br>• cyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu rhai pwyntiau<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • trafod y testun gan fynegi barn yn weddol gyson<br>• cyflwyno peth tystiolaeth<br>• dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau<br>• rhoi rhai rhesymau<br>• ymdrech at fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'n eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |



© WJEC CBAC Cyf.

| Cyfanswm marciau 40 | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL / PERSWADIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 22-27 | 11-13 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • trafod y testun gan fynegi peth barn<br>• cyflwyno ambell reswm<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |
| 14-21 | 7-10 | • ymdrech i gyflwyno manylion<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • trafod y testun gan fynegi barn / perswadio yn fyr ac yn syml<br>• dangos peth gallu i roi ambell reswm<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • peth ymgais i gyflwyno manylion<br>• peth dilyniant | • trafod y testun gan gytuno neu anghytuno'n fyr / perswadio yn fyr<br>• peth dilyniant | • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • cynnwys yn denau iawn | • cynnwys yn denau iawn | • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C**

**5. Defnyddio iaith**

Rhoddir **1** marc am bob cywiriad – **½ marc** am adnabod gwall a **½ marc** am gywiro'r gwall.
**Hysbusebwch > Hysbysebwch** – wedi ei gywiro fel enghraifft.

| |
|---|
| **Hysbysebwch eich eitemau cartref diangen am ddim**. |
| A oes rhywbeth **i'w** werthu gennych chi**?** |
| Cewch hysbysebu yn **yr** adran **hon** am ddim. |
| Uchafswm o ugain o **e**iriau yn **u**nig. |
| Cofi**wch** eich rhif ff**ô**n a'ch cyfeiriad. |
| Anfonwch eich **ff**urflen erbyn dydd **G**wener. |

**Gwallau:**

1. iw > **i'w** ( collnod)
2. (… chi. ) > ...chi **?** ( gofynnod/marc cwestiwn)
3. y > **yr** ( y fannod )
4. hwn> **hon** ( gwrywaidd/ benywaidd)
5. geiriau > **eiriau** ( treiglad)
6. ynig > **unig** ( sillafu)
7. cofia> **cofiwch** ( unigol/lluosog)
8. ffon > **ffôn** ( hirnod/ to bach)
9. furflen > **ffurflen** ( dyblu f)
10. gwener > **Gwener** ( prif lythyren)

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10**



© WJEC CBAC Cyf.

## HAEN UWCH

### ADRAN A

**1.** (i) Un marc am nodi:
- Stadiwm y Mileniwm [1]

(ii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi unrhyw ddau o'r canlynol:
- Dai Greene
- Helen Jenkins
- Jade Jones [2]

(iii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:
- 30
- 6 – 10 (rhwng hanner dwsin a deg)/ hyd at 10/ o leiaf 6/ Cystal â Bejing – o leiaf 5 medal [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

**2.** 1 marc am bob ffaith hyd at **13 marc**

Disgwylir ffeithiau o'r darnau yn unig, a disgwylir rhai ffeithiau o'r **tair adran** yn y cwestiwn, ond ni nodir marciau penodol i bob adran.
Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau y medrir eu clustnodi i fwy nag un adran.
Os atebir ar un adran yn unig – cyfanswm o 11 marc yn unig.
Os atebir ar ddwy adran yn unig – cyfanswm o 12 marc yn unig.

| | **Darn darllen 1: Gobaith Mawr i Gymru?** | **Darn darllen 2: Gemau Olympaidd yr Haf 2012** |
|---|---|---|
| **ffeithiau am y gemau**<br><br>**1 marc**<br>**✓ ff** | • Gemau Olympaidd Llundain 2012<br>• cystadlu yn agor yn Stadiwm y Mileniwm<br>• cyhoeddiad 7 mlynedd yn ôl/ neb yn meddwl mai yng Nghaerdydd y byddai yn dechrau<br>• ras gyfnewid y ffagl Olympaidd yn rhan o godi ysbryd...<br>• (neidiwr clwydi) Dai Greene, (athletwraig) Helen Jenkins, Jade Jones (ar y podiwm gyda medalau) (o leiaf 2)<br>• 30 o Gymry'n cymryd rhan<br>• gweld athletwyr yn ennill medalau yn ysbrydoli pobl ifanc<br>• Cymru'n anfon ei nifer fwyaf o athletwyr – gobaith am fedalau<br>• gobaith/ dymuniad i wneud cystal ag yn Beijing (5 Bejing)<br>• dogfen Strategaeth Chwaraeon Cymru yn nodi ein bod yn gobeithio ennill rhwng 6 – 10 o fedalau/ o leiaf 6/ hyd at 10<br>• digwyddiad chwaraeon mwya'r byd | • Digwyddiad aml-chwaraeon rhyngwladol pwysig<br>• Cynhaliwyd yn Llundain, (Lloegr)<br>• 27 Gorffennaf hyd 12 Awst 2012<br>• Beirniadaeth am y gost/ croesawu oherwydd yr ailddatblygu<br>• Roedd 10, 820 o athletwyr yn cymryd rhan/ dros 10,000<br>• 204 o wledydd yn cymryd rhan/ dros 200<br>• Llundain oedd y ddinas gyntaf i gynnal y Gemau Olympaidd modern deirgwaith (wedi iddynt gynnal Gemau Olympaidd yr Haf 1908 ac 1948).<br>• Arwyddair – *Inspire a Generation* / Ysbrydola Genhedlaeth<br>• 302 o gystadlaethau/ dros 300/ mewn 26 o Chwaraeon Olympaidd<br>• Canolbwynt y gemau oedd Parc Olympaidd yn (Stratford, Llundain)/ 200 hectar<br>• Seremoni agoriadol – Gorffennaf 27<br>• Seremoni gloi – Awst 12<br>• Stadiwm Olympaidd Llundain<br>• Defnyddiwyd lleoliadau oedd eisoes yn bodoli hefyd ar gyfer y gemau/ cyn safle diwydiannol<br>• Sylw am nifer y cystadleuwyr o'r map |
| **y cais a'r paratoi**<br><br>**1marc**<br>**✓c** | • Gobaith am effaith hir dymor yn sail i gais Llundain i gynnal Gemau 2012, dyna addewid Seb Coe.<br>• 1999 Cymru'n cynnal Cwpan Rygbi'r Byd - Cymru'n cael cyfleoedd heddiw oherwydd hyn – oni bai am hyn ni fyddai Stadiwm y Mileniwm/ datblygiad Dewi Sant 2/ digon o westai er mwyn rhoi croeso a llety i'r timau<br>• digwyddiad mawr fel Cwpan Rygbi'r Byd 1999 wedi gadael ei ôl | • 9 dinas wedi gwneud cais yn wreiddiol<br>• Dyddiad cau ar gyfer y cais oedd 15 Gorffennaf 2003<br>• Ar 6 Mehefin 2005, cafwyd adroddiadau/ cafwyd adroddiadau gan PORh.<br>• Rhestr fer o 5 dinas (Llundain, Moscow, Madrid, Paris, Efrog Newydd)<br>• Sebastian Coe a Ken Livingstone oedd yn arwain y cais ar ran Llundain<br>• Yn yr adroddiad, Paris oedd â'r adroddiad gorau/ gyda Llundain yn ail agos/ Efrog Newydd a Madrid yn cael adroddiadau positif iawn hefyd.<br>• Gwybodaeth am y ceisiadau o'r tabl – hyd at 2 ffaith gywir am y rowndiau neu'r gwledydd marc yr un<br>• Cyfarfod yn Singapore/ 6 Gorffennaf 2005 - cytunwyd ar Lundain fel lleoliad. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| **llwyddiannau**<br><br>**1 marc**<br>**✓ ll** | • cyffro mawr yng Nghaerdydd<br>• prifddinas Cymru yn chwarae rhan allweddol – dylen ni fod yn falch iawn/ rhoi Cymru ar y map<br>• ras gyfnewid y ffagl Olympaidd yn rhan o godi ysbryd<br>• 30 o athletwyr o Gymru yn cymryd rhan | • Unol Daleithiau enillodd y nifer fwyaf o fedalau/ China'n ail/ Prydain yn 3ydd<br>• Prydain yn gallu cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr/ eisoes wedi bod yn llwyddiannus – Pencampwriaeth pêl-droed Ewro 1996 + Gemau'r Gymanwlad 2002/<br>• Croeso gan rai oherwydd yr ailddatblygu fuasai'n digwydd yn nwyrain Llundain (yn enwedig ar sail cynaliadwyedd)<br>• Llwyddiant y ceisiadau |

Ymwybyddiaeth o ffurf **deialog**: 2 farc
(Deialog: sgwrs/trafodaeth rhwng 2 berson – naill ai wedi ei gosod ar ffurf sgript ag enwau ar yr ochr, neu sgwrs rhwng dau berson lle nad oes enwau ar yr ochr, ond lle mae'n amlwg y cyflwynir yr hyn mae dau berson yn ei ddweud.)

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2: 15**

© WJEC CBAC Cyf.

**4.** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol – hyd at **16**.

Enwi nodwedd (½ marc) + enghreifftio neu ddyfynnu (neu gyfeirio'n benodol at y nodwedd yn y darn darllen os nad oes modd dyfynnu) (½ marc) + rhesymu neu drafod effeithiolrwydd (1 marc).

| **Darn Darllen 1 – Gobaith Mawr i Gymru?** | **Darn Darllen 2 – Gemau Olympaidd yr Haf 2012** |
|---|---|
| **(4 x 2 = 8)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• canmol llwyddiant Cymru yn y Gemau Olympaidd/ creu diddordeb yn y gemau / ysbrydoli pobl ifanc/ cyflwyno gwybodaeth am y Gemau Olympaidd<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• unrhyw un sydd â diddordeb yn y Gemau Olympaidd/ darllenwyr y Cymro (neu safle'r we)<br><br>**y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• iaith lafar safonol yn y dyfyniadau<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** adroddiad/ erthygl bapur newydd (*Y Cymro*) - (nodweddion erthygl)<br>• **berfau amrywiol** – presennol, gorffennol, dyfodol (+ amodol – fe ddylai)<br>• **cwestiwn (rhethregol)** e.e. A sawl medal ddaw i Gymru?<br>• **dyfynnu** (Brian Davies, Rheolwr Perfformiad Uwch, Chwaraeon Cymru)<br>• **mynegi barn/safbwynt a rhesymu** e.e. rhaid i ni; dyna pam mae...; fydden ni ddim lle ydyn ni...oni bai am...; rwy'n credu fod yna...;<br>• **perswadiol** e.e. rhaid i ni adeiladu ar hynny; ..yn rhywbeth y dylen ni fod yn falch iawn ohono<br>• **nodi blynyddoedd** e.e.1999 + 2012 (nifer o weithiau)<br>• **enwi lleoedd** e.e. Caerdydd, Llundain, Stadiwm y Mileniwm, datblygiad Dewi Sant 2, Cymru, Gwent; Fflint; Beijing; Prydain Fawr<br>• **teitlau** e.e. Gemau Olympaidd Llundain; Rheolwr Perfformiad Uwch, Chwaraeon Cymru; Cwpan Rygbi'r Byd; Strategaeth Chwaraeon Cymru<br>• **enwau pobl** e.e. Seb Coe; Brian Davies; Dai Greene; Helen Jenkins; Jade Jones<br>• **cyflythrennu** e.e. Gobaith mawr i Gymru<br>• **niferoedd / ystadegau** e.e. 30 o Gymry ...; rhwng hanner dwsin a deg; pump o fedalau; a thair ....; pedair blynedd yn ôl | **(4 x 2 = 8)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth am y Gemau<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth (am y Gemau Olympaidd) darllenwyr safle gwe Wicipedia<br><br>**y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• uniongyrchol, moel<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** tudalen wybodaeth safle Wicipedia (nodweddion tudalen wybodaeth Wicipedia e.e. lliw, tanlinellu)<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. daeth, enillodd, derbyniodd<br>• **berfau amhersonol** e.e. penderfynwyd, cafwyd, croesawyd<br>• **nodi blynyddoedd / dyddiadau** e.e. 2012, 2005, 2003, 1996, Gorffennaf, Awst ...<br>• **enwi llefydd** (llawer ohonynt) e.e. Llundain, Lloegr, Singapore, y pum dinas, y gwledydd wnaeth gais am y Gemau ...<br>• **teitlau** e.e. Gemau'r Olympiad, Pencampwriaeth Ewro UEFA, PORh<br>• **enwau pobl** e.e. Sebastian Coe a Ken Livingstone<br>• **niferoedd / ystadegau** e.e. 204 o wledydd, niferoedd yn y blwch Gemau'r Olympiad (+ cyntaf, ail.., deirgwaith) |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| • **rhestru** e.e. Dai Greene.., Helen Jenkins..., Jade Jones....; fydden ni ddim..; yn rhan o'r..<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. ar lawr gwlad; o Gaergybi i Went<br>• **ansoddeiriau** i greu effaith: e.e. ffantastig (o'r Saesneg); allweddol; arbennig; pwerus iawn; gwych; llwyddiannus; (chwaraeon) mwya' (yn y byd); aur<br>• **amodol/ dymuniad** e.e. Os gallwn ....fe fydd yn dipyn o gyflawniad! ; Os cofiwch..; os meddyliwch...<br>• **ebychnod** e.e. dipyn o gyflawniad!<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **teitl** y papur newydd *Y Cymro* (Gobaith...)<br>• **dyddiad**<br>• **safle gwe'r papur newydd**<br>• **teitl** yr erthygl (Gobaith....)<br>• tair **colofn** a pharagraffau<br>• **cefndir coch** ar frig y dudalen fel cefndir i'r dyddiad + print gwyn cyfeiriad y papur<br>• **cefndir lliw hufen** i'r erthygl<br>• un **llun lliw** o Dai Greene<br>• **print bras** – y teitl<br>• **print trwm** – yn y teitlau<br>• **enw awdures yr erthygl** – Karen Owen | • **rhestru** e.e. y pum dinas, y rhestr yn y tabl canlyniadau, dyddiadau<br><br>• **ansoddeiriau** (prin) e.e. ail agos, positif iawn<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **logo** Wicipedia ar frig y dudalen<br>• **logo** Gemau'r Olympiad<br>• **baneri**'r 5 gwlad yn y tabl ceisiadau<br>• **teitl** y dudalen wybodaeth (Gemau Olympaidd yr Haf 2012) (mewn blwch glas)<br>• **isbenawdau** (print trwm du – yn y blychau – Gwneud Cais, Cost)<br>• prif ffeithiau wedi eu **tanlinellu** + mewn **print glas** (nodwedd Wicipedia) yn cynnig dolen neu gyswllt i fwy o wybodaeth<br>• **map** o'r gwledydd efo maint y timau<br>• **print trwm** – y teitl + isdeitl – gwneud cais, canlyniadau ceisiadau, rhestr o wybodaeth yn y tabl, canlyniadau gorau yn y tabl ceisiadau<br>• **blychau**: un yn rhoi ffeithiau am Gemau'r Olympiad; un yn rhoi canlyniadau'r ceisiadau ar ffurf grid/ tabl; un yn rhoi map + blychau bach yn dangos nifer y cystadleuwyr. |

Dyfernir **4 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau / ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd)** (hyd at **4 marc** ar draws y ddau ddarn)
**4 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn aeddfed
**3 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn dda
**2 farc** – mynegi barn a chyd-drafod yn eithaf da
**1 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn fras

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 20 marc**

- **½ marc am enwi nodwedd. Rhaid dyfynnu neu enghreifftio'n glir er mwyn ennill y marc enwi nodwedd.**
- **O fewn 1 ½ marc - ½ marc am ddyfynnu/ enghreifftio ac yna hyd at 1 marc am drafod effeithiolrwydd neu bwrpas.**
- **Wrth sôn am fwriad yr awdur/ pwy yw'r darllenwyr, mae'n anodd enghreifftio felly rhoddir hyd at 1 ½ marc am esbonio'r pwrpas.**

© WJEC CBAC Cyf.

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol.**

| IAITH A MYNEGIANT 10 | Marc 10 |
|---|---|
| • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf | 9-10 |
| • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf | 7-8 |
| • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf | 6 |
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 4-5 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 2-3 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 + Iaith a Mynegiant:10)**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**4.** Gweler y disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys ac Iaith a Mynegiant
Ffurf cwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys
½ i ¾ tudalen – ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol:***

| **Cyfanswm Marciau** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL / PERSWADIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • cyfanwaith creadigol aeddfed a threiddgar<br>• arddull afaelgar<br>• adeiladwaith sicr | • trafod y testun yn ymestynnol a threiddgar gan fynegi barn yn aeddfed<br>• cyflwyno tystiolaeth briodol yn gryno a chrefftus<br>• ehangu a datblygu pwyntiau<br>• cyfanwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol iawn ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith â dyfnder iddo<br>• arddull aeddfed<br>• adeiladwaith sicr | • trafod y testun a mynegi barn yn hyderus a phwrpasol<br>• cyflwyno tystiolaeth briodol yn effeithiol a chryno<br>• dangos y gallu i ehangu a datblygu pwyntiau<br>• gwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf |
| 22-27 | 11 -13 | • gwaith ag apêl iddo<br>• arddull ddifyr<br>• gwaith trefnus | • trafod y testun yn fanwl gan fynegi barn yn bendant<br>• cyflwyno tystiolaeth gyson<br>• dangos y gallu i ddatblygu pwyntiau<br>• gwaith trefnus<br>• arddull dda ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cyfanswm Marciau | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL / PERSWADIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 14-21 | 7-10 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • trafod y testun gyda pheth manylder gan fynegi barn yn gyson<br>• cyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu rhai pwyntiau<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • trafod y testun gan fynegi barn yn weddol gyson<br>• cyflwyno peth tystiolaeth<br>• dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau<br>• rhoi rhai rhesymau<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'n eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • trafod y testun gan fynegi peth barn<br>• cyflwyno ambell reswm<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C**

**5. Defnyddio iaith**

Rhoddir 1 marc am bob cywiriad – **½ marc** am adnabod gwall a **½ marc** am gywiro'r gwall.

**Hysbusebwch > Hysbysebwch** – wedi ei gywiro fel enghraifft

**Hysbysebwch eich eitemau cartref diangen am ddim.**

A oes ge**nn**ych chi rywbeth **i'w** werthu**?**

Os oes, dym**a'ch** cyfle. **Cewch** hysbysebu yn yr adran hon yn **rh**ad ac am ddim.
Anfonwch eich manylion ar y ffurflen **hon**. Uchafswm o ugain o eiriau yn unig.

Nwyddau cartref mewn cyflwr da yn unig, os gwelwch yn dda.

Anfonwch y manylion **atom** ni erbyn dydd Gwener.

Peidiwch **ag** anghofio cynnwys rhif ff**ô**n a chyfeiriad.

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10**

**Gwallau:**

1. genych > gennych (dyblu n)
2. yw > i'w (gwahaniaethu)
3. ...werthu. > ...werthu? (gofynnod/marc cwestiwn)
4. dymach > dyma'ch (collnod)
5. cei > cewch (unigol/lluosog)
6. rad > rhad (treiglad)
7. hwn > hon (gwrywaidd/benywaidd)
8. at (ni) > atom (ni) (terfyniad arddodiad) neu aton (ni)
9. ac > ag (c/g)
10. ffon > ffôn (hirnod/to bach)



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.